# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU

**Dyddiad cyhoeddi:** 25 Medi 2023

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: GWEITHLU**

**I'w weithredu gan:**
Brif Weithredwyr, Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau
Cyfarwyddwyr Meddygol, Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau
Cyfarwyddwyr ac Arweinwyr Ymchwil a Datblygu, Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau
Cyfarwyddwyr Gweithredol Nyrsio, Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau
Cyfarwyddwyr Therapïau a Gwyddor Iechyd, Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau
Cyfarwyddwyr Cynllunio, Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau
Cyfarwyddwyr Gofal Sylfaenol, Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau
Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau
Cyfarwyddwyr y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol, Byrddau Iechyd/Ymddiriedolaethau

**Anfonwr:** Rachel Gardiner, Newid Hinsawdd ac Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol **Rachel.Gardiner@llyw.cymru**

**Enw(au) Cyswllt GIGC Llywodraeth Cymru :**

Y Rhaglen Genedlaethol Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Daclo'r Argyfwng Hinsawdd:

- Ann Corp, Newid Hinsawdd ac Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. **Ann.Corp@llyw.cymru**
- Maureen Potter, Newid Hinsawdd ac Iechyd Cyhoeddus Amgylcheddol, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol **Maureen.Potter@llyw.cymru**
- Blwch Post Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer yr Argyfwng Hinsawdd: **HSC.ClimateChangeAndEPH@llyw.cymru**

**Dogfennau Amgaeedig: Pedwar cysylltau**

**GIG Gwobrau Cynaliadwyedd Cymru:**

- Categorïau a Dogfen Ganllaw.
- Poster Gwnewch Gais Nawr.
- Poster Arbed y Dyddiad

Annwyl Gyfeillion,

**Cefndir**

Yn 2019, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddatgan argyfwng hinsawdd i Gymru er mwyn sbarduno mwy o ffocws a gweithgarwch wrth inni ymateb i'r heriau sy'n codi yn sgil yr argyfwng hinsawdd.

Mae gan Gymru darged sy'n ymrwymiad cyfreithiol i sicrhau allyriadau sero net erbyn 2050, ochr yn ochr ag uchelgais i'r sector cyhoeddus cyfan fod yn garbon sero net erbyn 2023.

Yn 2018/19, amcangyfrifwyd mai **1,001,378 tCO2e** oedd ôl troed carbon GIG Cymru**,** ac mae'r allyriadau iechyd hyn oddeutu 2.6% o gyfanswm allyriadau Cymru.

Yn arolwg diweddar y panel Amser i Siarad Iechyd Cyhoeddus, a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, nodwyd bod:

- 81% o bobl yn teimlo'n bryderus (40% ohonynt yn bryderus iawn) ynghylch y newid yn yr hinsawdd, a
- 72% o bobl yn cytuno (21% ohonynt yn cytuno'n gryf) mai eu cyfrifoldeb nhw yw gwneud rhywbeth ynghylch y newid yn yr hinsawdd.

Felly er mai Llywodraeth Cymru sydd wedi gweithredu'r Rhaglen Genedlaethol Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Daclo'r Argyfwng Hinsawdd, gyda'r nod o hwyluso'r math o arweinyddiaeth a chydweithredu y mae eu hangen i gyrraedd sero net a chreu sector sy'n gallu dygymod â'r newid yn yr hinsawdd, rydym yn cydnabod mai **holl staff GIG Cymru ar y cyd** sydd yn y sefyllfa orau i sicrhau bod newidiadau cynaliadwy yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus.

Mae profiad a chreadigrwydd staff GIG Cymru, drwy'r dysgu a'r ymgysylltu sy'n digwydd rhwng cymheiriaid, yn gallu ysbrydoli a chymell pobl i weithredu'r gwelliannau cynaliadwy hanfodol y mae eu hangen ar y sector iechyd, a chyfrannu at uchelgais y sector cyhoeddus a thargedau newid hinsawdd ehangach Cymru.

**Rydym yn gofyn am eich cymorth:**

Rydym yn gofyn i'r holl gydweithwyr sy'n cael copi o'r Cylchlythyr Iechyd hwn raeadru a hyrwyddo'r wybodaeth isod ynglŷn â **Chynhadledd a Gwobrau Cynaliadwyedd Cymru GIG,** drwy rwydweithiau a sianeli cyfathrebu eu staff.

**Cynhadledd a Gwobrau Cynaliadwyedd Cymru GIG**

- Mae ein cydweithwyr ymroddedig yn GIG Cymru wedi sefydlu a lansio **Cynhadledd a Gwobrau Cynaliadwyedd Cymru GIG** i hyrwyddo egwyddorion gofal iechyd cynaliadwy a chefnogi'r ymgyrch i ymwreiddio arferion cynaliadwy mewn gofal clinigol.

- Cynhelir **Cynhadledd a Gwobrau Cynaliadwyedd Cymru GIG** ar 29 Chwefror 2024 yng Ngwesty'r Vale, Caerdydd.

- **Y Gynhadledd** – Fe'ch gwahoddir i **'Arbed y Dyddiad'** ac ymuno â ni ar gyfer diwrnod lle bydd cyfle i fwynhau arddangosfeydd a gwrando ar anerchiadau pwysig gan ein siaradwyr, sy'n canolbwyntio ar ofal clinigol; y

mannau lle mae problemau carbon yn eich gwasanaethau; a’r angen i sicrhau gwerth cynaliadwy.

- **Y Gwobrau** – Beth am gymryd rhan eich hunain? Gallwch ymgeisio drwy gyflwyno prosiect cynaliadwyedd mewn un o’r naw categori o wobrau cyn 31 Ionawr 2024 i gael y cyfle i fod yn rhan o fwrlwm y digwyddiad unigryw hwn. **Darllenwch y cyfarwyddiadau ar gyfer y digwyddiad** a **chofrestrwch eich cais yma!**

Cofion cynnes,



Irfon Rees
Cyfarwyddwr Iechyd a Llesiant
Llywodraeth Cymru